

Natur Drws Nesaf

Sut i Gynnal Digwyddiad Codi Arian

Mae'r cyngor yma ar eich cyfer chi os ydych chi'n cynllunio digwyddiad untro i godi arian. Os ydych chi eisiau gwneud cais am arian, edrychwch ar ein hadnoddau eraill.

Mae llawer o wahanol ddigwyddiadau y gallwch chi eu cynnal i godi arian. Nid oes unrhyw reolau penodol yn ymwneud â phethau fel Arwerthiant Cacennau / Pobi Elusennol. Fodd bynnag, mae hylendid bwyd yn bwysig iawn, a gallwch ddod o hyd i wybodaeth hawdd ei darllen ar y wefan Safonau Bwyd yma:

(<https://www.food.gov.uk/business-guidance/food-hygiene-for-your-business>)

Cofiwch feddwl am alergeddau bwyd a labelwch unrhyw fwyd os oes ganddo gnau ynddo, neu bethau eraill a allai wneud rhai pobl yn sâl.

Yn ogystal ag arwerthiant cacennau, partïon cacennau, picnics cymunedol a boreau coffi, mae llawer o bethau eraill y gallech eu gwneud. Dyma rai syniadau i ddod â phobl at ei gilydd:

- Golchi ceir
- Diwrnod gerddi agored
- Cerdded dros fywyd gwyllt
- Sioe dalent
- Twrnamaint gemau
- Noson gwis
- Raffl
- Taith gerdded yn ystod y nos
- Bingo
- Gwisgo i fyny
- Taith gerdded corws y wawr
- Cysgu gwyllt

Gallwch werthu pethau:

- Arwerthiant llyfrau
- Arwerthiant celf a chrefft
- Arwerthiant dewch a phrynu
- Ocsiwn

Gall pobl gael eu noddi i wneud pethau fel:

- Eillio eu gwallt
- Tawelwch noddedig
- Rhoi'r gorau i rywbeth, fel arfer gwael



Natur Drws Nesaf

Neu gallwch fod yn actif! Rhowch gynnig ar y rhain:

- Cwrs rhwystro
- Deifio o'r awyr
- Rhedeg marathon
- Gemau Olympaidd Mini
- Abseilu
- Ras hwyl
- Gêm bêl droed
- Dawns ysgubor
- Taith feicio

Cynllunio'r digwyddiad:

Ble fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal? Os yw y tu allan, mae angen i chi wirio rhagolygon y tywydd a chael cynllun rhag ofn y bydd y tywydd yn rhy ddrwg. Os yw'r digwyddiad ar dir preifat, bydd arnoch chi angen caniatâd perchennog y tir. Os yw'r digwyddiad ar dir cyhoeddus, cysylltwch â'ch cyngor lleol yn gyntaf – cyn i chi wneud unrhyw gyhoeddusrwydd!

Rhaid i chi gynnal asesiad risg. Bydd yr asesiad risg yn dweud wrthyf os oes arnoch chi angen yswiriant. Mae mwy o wybodaeth am asesiadau risg ac yswiriant ar gael yn ein hadnoddau eraill.

Pryd fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal? Pwy sy'n cael gwahoddiad? Gosodwch nod codi arian.

Mae angen i chi hyrwyddo'r digwyddiad. Gallwch greu posteri a thafleuni. Edrychwch ar fwy o ganllawiau am bosteri a thafleuni yn ein hadnoddau eraill.

Gallwch hyrwyddo'r digwyddiad ar-lein. Gallech greu tudalen JustGiving neu dudalen codi arian ar-lein arall a gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol hefyd. Cofiwch ddweud wrth eich Ymddiriedolaeth Natur leol beth rydych chi'n ei wneud! A rhowch wybod i'r papurau lleol a'r gorsafoedd radio. Gallwch ddod o hyd i dempled ar gyfer datganiad i'r wasg yn ein hadnoddau eraill.

Peidiwch â cheisio gwneud popeth eich hun! Mae pobl wrth eu bodd yn helpu. Gofynnwch i bobl beth hofften nhw ei wneud a lluniwch gynllun gyda'ch gilydd. Gall hyd yn oed digwyddiad bach fod yn llawer o waith. Ar y diwrnod ei hun, peidiwch ag anghofio cynllunio seibiant i bawb - ac mae hynny'n eich cynnwys chi! Tynnwch lawer o luniau ac wrth gwrs, mwynhewch.

Wedyn, cyfrwch faint wnaethoch chi ei godi, a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gadael i bawb wybod.

